



Home Office

# Atal a mynd i'r afael â phriodas dan orfod: ymgynghoriad

## Ymgynghoriad Llywodraeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cychwyn ar 15 Tachwedd 2018

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 23 Ionawr 2019

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

I:	Y cyhoedd, yn benodol dioddefwyr a goreswyr priodas dan orfod, y rheini ag arbenigedd ym maes priodas dan orfod, a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
Hyd:	Rhwng 15 Tachwedd 2018 a 23 Ionawr 2019
Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur ar ffurfiau amgen) at:	Interpersonal Violence Team, Public Protection Unit 5 <sup>th</sup> Floor, Fry Building 2 Marsham Street London SW1P 4DF E-bost: <a href="mailto:forcedmarriageconsultation@homeoffice.gov.uk">forcedmarriageconsultation@homeoffice.gov.uk</a>
Sut i ymateb:	Er mwyn ein helpu ni i ddadansoddi'r ymatebion, cyflwynwch eich ymateb gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein a ganlyn:  <a href="https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/ForMar18/">https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/ForMar18/</a>  Anfonwch eich ymateb erbyn 23:00 ar 23 Ionawr 2019.  Os, am resymau eithriadol, na allwch chi ddefnyddio'r system ar-lein, er enghraifft oherwydd eich bod chi'n defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol nad yw'n gydnaws â'r system, gallwch lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen a'i hanfon trwy e-bost neu ei phostio at:  Interpersonal Violence Team, Public Protection Unit 5 <sup>th</sup> Floor, Fry Building 2 Marsham Street London SW1P 4DF E-bost: <a href="mailto:forcedmarriageconsultation@homeoffice.gov.uk">forcedmarriageconsultation@homeoffice.gov.uk</a>

# Cynnwys

Rhagair	4
Cyflwyniad	6
Cefndir	7
Strategaeth Llywodraeth i fynd i'r afael â phriodas dan orfod	8
Rhan A: Adrodd Gorfodol ar Briodas dan Orfod	9
Adran 1: Cyflwyno dyletswydd	9
Adran 2: Sut y gellid fframio'r ddyletswydd	10
Effaith	17
Cwestiynau ehangach	17
Rhan B: Arweiniad ar Briodas dan Orfod	18
Holiadur	20
Amdanoch chi	24
Manylion cyswllt a sut i ymateb	26
Egwyddorion yr ymgynghoriad	28

# Rhagair



Mae priodas dan orfod yn drosedd ddifrifol. Mae ein rhyddid i ddewis priod yn hawl dynol sylfaenol – ni ellir byth cyfiawnhau gwadu hynny. Mae priodas heb ganiatâd yn drosedd a, phan fydd yn effeithio ar blant, mae hefyd yn ffurf ar gam-drin plant. Ar gyfer y grŵp neu'r grwpiau wedi'u gorfodi, gall priodas dan orfod arwain at unigedd, datblygiad cymdeithasol a chyfleoedd bywyd cyfyngedig, a thrais corfforol a rhywiol. Gall dioddefwyr priodas dan orfod fod o unrhyw oed, rhyw, ethnigrwydd a diwylliant. Mae pob prif ffydd yn ei gondemnio.

Ar gyfer y Llywodraeth, mae mynd i'r afael â phriodas dan orfod yn flaenoriaeth lwyr, ac yn rhan allweddol o'r strategaeth mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched traws-Llywodraethol. Fe wnaethom briodas dan orfod, a thorri gorchymyn amddiffyn priodas dan orfod, yn droseddau, a chyflwyno anhysbysrwydd gydol oes i ddioddefwyr. Trwy ariannu gan gynnwys Trais yn Erbyn Menywod a Girls Transformation Fund rydym yn cynnig cefnogaeth i brosiectau lleol sy'n helpu i fynd i'r afael â phriodas dan orfod. A thrwy gyduned Priodas dan Orfod y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad rydym yn parhau i helpu dioddefwyr, gan gynnig cyngor i weithwyr proffesiynol a chodi ymwybyddiaeth o'r mater hwn. Mae hyn i gyd wedi helpu i annog y rheini sydd wedi dioddef y drosedd ofnadwy hon i godi eu llais.

Serch hynny, gwyddom fod priodas dan orfod yn parhau yn drosedd gudd. Gallai dioddefwyr barhau yn dawel, gan ofni unigedd neu waeth gan eu teulu a/neu gymuned. Dyna pam mae rôl y gweithwyr proffesiynol rheng flaen o fewn iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, a allai ddod ar draws arwyddion o briodas dan orfod, mor allweddol. Mae'n bosibl mai dim ond un cyfle i siarad – ac achub – dioddefwr posibl y byddan nhw'n ei gael. Yn 2014, fe wnaethom gyhoeddi dau ddarn o arweiniad – i arweinwyr a staff rheng flaen yn y sectorau hynny – yn amlinellu eu cyfrifoldebau wrth fynd i'r afael â phriodas dan orfod.

Gyda chymaint o wahaniaeth rhwng y cyffredinolrwydd ac adrodd am briodas dan orfod, mae'n iawn ein bod ni fel Llywodraeth yn ystyried beth arall y gallwn ei wneud i gynyddu'r adrodd, rhwystro cyflawnwyr troseddau posibl a gwella amddiffyniadau i ddioddefwyr. Archwilia'r ymgynghoriad hwn ddwy ffordd y gallwn wneud y pethau hynny: posibilrwydd o gyflwyno dyletswydd gyffredinol sy'n gofyn i weithwyr proffesiynol adrodd am achosion, a

diweddarau'r arweiniad a gyhoeddwyd gennym yn 2014. Gwyddom fod hwn yn fater cymhleth a dyma pam ein bod ni eisiau clywed barnau'r rheini sy'n arbenigwyr neu sydd wedi'u heffeithio ganddo.

Byddwn yn eich annog chi i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac edrychaf ymlaen at glywed eich barnau. Trwy gydweithio, gwyddom y byddwn yn gallu gostwng, ac un dydd, rhoi diwedd ar y drosedd ofnadwy hon.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'S. Javid', with a small comma at the end.

**Y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS**

**Ysgrifennydd Cartref**

# Cyflwyniad

Ceisio'r ymgynghoriad hwn gasglu barnau a yw'r angenrheidiol i gyflwyno **dyletswydd orfodol i adrodd** gyfreithiol newydd mewn perthynas ag achosion o briodas dan orfod ac, os ydyw, ar ba ffurf fyddai gofyniad adrodd o'r fath. Mae hefyd yn ceisio barnau ar sut y gellid gwella a chryfhau'r **arweiniad cyfredol ar briodas dan orfod**.

Mae'r ymgynghoriad yn agored i bawb. Mae gennym ddiddordeb penodol mewn clywed gan ddiodefwyr a goroeswyr priodas dan orfod, y rheini gydag arbenigedd ym maes priodas dan orfod, a gweithwyr proffesiynol perthnasol, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio o fewn gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu a gofal iechyd. Cwmpas daearyddol yr ymgynghoriad hwn yw Cymru a Lloegr.

Bydd Asesiad Effaith yn cael ei gynnal ar ôl yr ymgynghoriad hwn os yw'r penderfyniadau polisi y mae'r Llywodraeth yn dueddol o'u cymryd yn ei sgil yn golygu bod un yn angenrheidiol. Mae cwestiynau ynglŷn ag effaith yr ymgynghoriad hwn.

Serch hynny, nid bwriad y rhestr hon yw bod yn hollgynhwysol nac yn unigryw a chroesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur hwn neu â diddordeb ynddo.

## Cefndir

Mae priodas dan orfod yn briodas lle nad yw un neu'r ddau briod yn caniatáu i'r briodas ac wedi'u gorfodi iddi, neu lle mae gan un neu'r ddau briod ddiffyg gallu i roi caniatâd. Gallai gorfodaeth gynnwys trais, bygythiadau, neu wahanol fathau o bwysau (e.e. seicolegol, ariannol, neu emosiynol). Mae priodas dan orfod yn drosedd yng Nghymru a Lloegr o dan adran 121 y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014. Mae'r drosedd hon yn gymwys p'un a yw'r seremoni briodasol yn rhwym yn gyfreithiol ai peidio.

Mae gwahaniaeth clir rhwng priodas dan orfod a phriodas wedi'i threfnu. Gyda phriodasau wedi'u trefnu, mae teuluoedd y ddau grŵp yn cymryd rôl arweiniol wrth drefnu priodas, ond mae'r dewis i dderbyn y trefniant ai peidio yn gorwedd gyda'r darpar briod. Serch hynny, gyda phriodas dan orfod mae'r dewis hwn wedi'i dynnu i ffwrdd oddi ar un neu'r ddau briod posibl.

Mae'r gyduned Priodas Dan Orfod y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynnig cefnogaeth a chynghor ar briodas dan orfod i ddiodefwyr, gweithwyr proffesiynol a'r rheini wrth risg, trwy linell gymorth cyhoeddus<sup>1</sup>. Yn 2017, darparodd yr uned gefnogaeth i 1,196 o achosion<sup>2</sup>.

Mae'n her amcangyfrif cyffredinolrwydd priodas dan orfod yn y DU oherwydd natur gudd y drosedd. Amcangyfrifodd ymchwil a gynhaliwyd gan yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd ar y pryd yn 2009 bod rhwng 5,000 a 8,000 o achosion o briodas dan orfod wedi'u hadrodd yn Lloegr yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r Adroddiad Trais yn Erbyn Menywod a Merched Gwasanaeth Erlyn y Goron diweddaraf yn dangos bod cynnydd yn yr atgyfeiriadau<sup>3</sup> o briodasau dan orfod y tynnwyd sylw atynt gan yr heddlu i Wasanaeth Erlyn y Goron, y bobl dan amheuaeth sydd wedi'u cyhuddo a'r erlyniadau yn 2017–18, gyda chynnydd yng nghyfaint y collfarnau<sup>4</sup>. Hyd yma, mae pedair collfarn wedi bod o dan y drosedd priodas dan orfod ers ei chyflwyno yn 2014.

Er bod hyn yn galonogol, mae'r niferoedd yn parhau yn weddol fechan a cheir gwahaniaeth rhwng cyffredinolrwydd a amcangyfrifir o briodas dan orfod a nifer yr atgyfeiriadau at yr heddlu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych ar ffyrdd y gallai'r ymateb diogelu i'r drosedd hon gael ei chryfhau i wella amddiffyn i ddiodefwyr, sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni troseddau yn cael eu dwyn i gyfiawnder, ac yn y pendraw helpu i atal priodas dan orfod rhag digwydd yn y lle cyntaf.

<sup>1</sup> 020 7008 0151 <https://www.gov.uk/guidance/forced-marriage>

<sup>2</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/forced-marriage-unit-statistics-2017>

<sup>3</sup> Mae'r data yn cynnwys pob achos sydd wedi'u nodi fel 'priodas dan orfod' ac nid dim ond y rheini sy'n perthyn i drosedd priodas dan orfod a gyflwynwyd yn 2014.

<sup>4</sup> <https://www.cps.gov.uk/publication/violence-against-women-and-girls>

## Strategaeth Llywodraeth i fynd i'r afael â phriodas dan orfod

Mae'r Llywodraeth yn glir bod priodas dan orfod yn drosedd, ac os oes plentyn yn gysylltiedig, mae hefyd yn ffurf ar gam-drin plant. Mae mynd i'r afael â phriodas dan orfod yn rhan allweddol o Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched traws-Lywodraethol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod mynd i'r afael â phriodas dan orfod yn gofyn am ymdriniaeth wedi'i chydlynu.

Mae ystod o waith wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth yn ystod blynyddoedd diweddar i helpu i fynd i'r afael â phriodas dan orfod, gan gynnwys:

- cyflwyno trosedd benodol ar gyfer priodas dan orfod a gwneud hi'n drosedd pan fydd rhywun yn torri Gorchymyn Gwarchod Priodas dan Orfod trwy'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Plismona a Throsedd 2014;
- cyflwyno anhysbysrwydd gydol oes i ddiodefwr priodas dan orfod trwy'r Ddeddf Plismona a Throsedd 2017;
- cyhoeddi arweiniad amlasiantaeth statudol ar briodas dan orfod a chanllawiau arfer amlasiantaeth yn 2014, ynghyd â chyflwyno e-ddysgu am ddim; a
- gwaith codi ymwybyddiaeth barhaus gan, a chefnogaeth oddi wrth, cyduned Priodas dan Orfod y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad.



# Rhan A: Adrodd Gorfodol ar Briodas dan Orfod

Mae'n bwysig bod rhan hon yr ymgynghoriad yn cael ei hystyried yng nghyd-destun yr ystod o fesurau sydd eisoes wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â phriodas dan orfod. Ni fydd y ddyletswydd newydd ar ei phen ei hun yn atal priodas dan orfod, gwella cefnogaeth ac amddiffyniad i ddiodefwr, nac yn sicrhau cosb i droseddwr. Serch hynny, mae'r Llywodraeth eisiau deall a allai cyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar briodas dan orfod, ar y cyd gyda gwaith ehangach, helpu i gyflawni'r nodau hyn.

## Adran 1: Cyflwyno dyletswydd

Gallai cyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod arwain at nifer cynyddol o ddiodefwr a diodefwr posibl yn cael eu hadnabod wrth yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol. Mae priodas dan orfod yn drosedd yng Nghymru a Lloegr, p'un a yw'n digwydd yn y DU neu'n cynnwys (boed hynny fel y troseddwr neu'r diodefwr) preswlydd y DU neu wladolyn tramor. Byddai hysbysu'r heddlu trwy adrodd gorfodol yn caniatáu iddynt ymchwilio i ffeithiau pob achos a dylai gynyddu nifer y rhai sy'n cyflawni troseddau sy'n cael eu herlyn am y drosedd hon. Gallai cynnydd yn yr erlyniadau am briodasau dan orfod yn ei dro weithredu fel arf ataliol ac yn y pendraw atal priodas dan orfod rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Gwyddom fod rhwystrau rhag adrodd am briodas dan orfod ac ymchwilio iddi, gan gynnwys dibyniaeth ar ddiodefwr neu dystion i adrodd wrth yr heddlu (o ystyried yr elfennau teuluol a chymunedol i'r drosedd hon), ac atgyfeiriadau cyfyngedig gan weithwyr proffesiynol iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r Llywodraeth eisiau sicrhau bod achosion yn cael eu hadrodd yn briodol wrth yr heddlu gan weithwyr proffesiynol diogelu, er mwyn cynyddu ymchwiliadau ac erlyniadau posibl.

Serch hynny, mae'r Llywodraeth hefyd yn ystyriol y gallai risgiau fod yn gysylltiedig â chyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod. Os caiff ei weithredu'n afreolaidd, gallai dyletswydd orfodol danseilio'r ymddiriedaeth rhwng diodefwr a'r gweithwyr proffesiynol diogelu. Mae angen hefyd i daro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn adnabod yn briodol diodefwr a diodefwr posibl a pheidio â chreu system 'gwrth risg' lle gallai'r holl achosion o briodasau dan orfod posibl gael eu hadrodd, a fyddai'n effeithio er gwaeth ar allu'r heddlu i flaenoriaethu achosion, ac o bosibl stigmatiddio cymunedau cyfan.

## Atal a mynd i'r afael â phriodas dan orfod: ymgynghoriad

Byddai'n rhaid i unrhyw ddyletswydd newydd gael ei gweld yng nghyd-destun cyfrifoldebau ac arweiniad statudol cyfredol (er enghraifft, Working Together to Safeguard Children<sup>5</sup> (yn Lloegr) a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl<sup>6</sup> (yng Nghymru)), sy'n nodi'n glir y dylai unrhyw ymarferydd sy'n amau bod plentyn wedi dioddef cam-drin (o unrhyw ffurf), neu sydd wrth risg o gam-drin, wneud atgyfeiriad i ofal cymdeithasol plant.

### Cwestiwn 1: A greddwch chi y byddai cyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn gwella'r ymateb diogelu i'r drosedd hon?

- Byddai
- Na fyddai
- Ddim yn gwybod

## Adran 2: Sut y gellid fframio'r ddyletswydd

Pe bai dyletswydd yn cael ei chyflwyno, byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i sut y byddai'n cael ei fframio, gan gynnwys pwy fyddai angen cydymffurfio â hi ac i ba fath o achosion y byddai'n berthnasol. Er enghraifft, gallai dyletswydd adlewyrchu'r ymdriniaeth a gymerwyd ar gyfer dyletswydd orfodol i adrodd a gyflwynwyd yn 2015 ar gyfer anffurfio organau cenhedlu benywod<sup>7</sup>, neu fe allai gymryd ymdriniaeth ehangach trwy gymhwyso i ystod ehangach o weithwyr proffesiynol a/neu gasglu amrywiaeth eang o achosion.

### 2.1 Cwmpas

#### Achosion 'hysbys', 'a amheuir' neu 'wrth risg' o briodasau dan orfod?

Mae tri phrif opsiwn ar gyfer pa fathau o achosion y gellid eu hadrodd o dan y ddyletswydd newydd: fe allai fod yn gymwys i achosion 'hysbys', 'a amheuir' neu 'wrth risg' o briodasau dan orfod.

- Mae achosion 'hysbys' wedi'u diffinio fel y rheini sydd wedi'u datgelu gan y dioddefwr (ar ôl i'r briodas ddigwydd) wrth weithiwr proffesiynol.
- Diffinnir achosion 'a amheuir' fel y rheini lle mae'r gweithiwr proffesiynol wedi arsylwi ar ffactorau risg sy'n arwain atynt yn credu y gallai'r unigolyn fod wedi'i orfodi/ei gorfodi i briodas.

<sup>5</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children--2>

<sup>6</sup> <https://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy>

<sup>7</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/mandatory-reporting-of-female-genital-mutilation-procedural-information>

- Diffinnir achosion 'wrth risg' fel y rheini lle cred gweithwyr proffesiynol y gallai unigolyn fod wrth risg o gael ei orfodi/ei gorfodi i briodas ond nad yw'r drosedd wedi digwydd eto.

Yn ychwanegol at sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd lle mae trosedd wedi digwydd, byddai adrodd am achosion 'hysbys' yn unig yn sicrhau bod camau diogelu priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw aelodau eraill y teulu (e.e. brodyr neu chwiorydd iau) a oedd yn cael eu hystyried wrth risg. Serch hynny, pe bai dyletswydd wedi'i chyfyngu i achosion 'hysbys' yn unig byddai'n rhaid bod yn glir nad oedd hyn yn newid y sefyllfa mewn cysylltiad ag achosion 'a amheuir' neu 'wrth risg' ac y byddai angen i weithwyr proffesiynol gymryd camau priodol o hyd fel yr amlinellir yn yr arweiniad amlasiantaeth ar briodas dan orfod.

Byddai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer yr holl achosion 'a amheuir' ac 'wrth risg' o briodas dan orfod â'r potensial i gynnig cyfle i ymateb diogelu amlasiantaeth gael ei sefydlu i ddiogelu'r rheini wrth risg a'u hatal rhag cael eu gorfodi i briodas. Serch hynny, mae risgiau yn gysylltiedig â'r ymdriniaeth hon. Er enghraifft, mae'n hynod heriol llunio rhestr gyffredinol o ffactorau risg penodol; rhaid edrych ar achosion yn unigol i sicrhau bod asesiad risg yn cael ei deilwra i amgylchiadau'r achos.

Gallai dyletswydd a oedd yn gymwys i achosion 'a amheuir' a/neu 'wrth risg' arwain at weithwyr proffesiynol yn mabwysiadu dehongliad eang iawn o risg, yn arwain at:

- dargedu (anfwriadol) ar gymunedau penodol a allai beryglu'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth ac eraill i gefnogi cymunedau sydd wedi'u heffeithio wrth yrru newid;
- cynnydd cyflym yn yr atgyfeiriadau, yn ei gwneud hi'n fwy heriol i achosion risg uchel gael eu hadnabod; a
- ffocws anghymesur ar briodasau dan orfod o'i gymharu â meysydd diogelu eraill.

Pan fydd dyletswydd wedi'i fframio'n ehangach yn cael ei chyflwyno, byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i sut i helpu i liniaru ar y risgiau hyn (gan gynnwys, er enghraifft, trwy hyfforddiant ac arweiniad cadarn).

**Cwestiwn 2(a): Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodasau dan orfod yn cael ei chyflwyno, ydych chi'n meddwl y dylai gymhwysu i:**

- **Achosion 'hysbys' (dylai/na ddylai/ddim yn gwybod)**
- **Achosion 'a amheuir' (dylai/na ddylai/ddim yn gwybod)**
- **Achosion 'wrth risg' (dylai/na ddylai/ddim yn gwybod)**

**Cwestiwn 2(b):** Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno ar gyfer achosion 'a amheuir' a/neu 'wrth risg', pa amddiffyniadau y credwch chi y gellid eu sefydlu i helpu i liniaru ar y risgiau a amlinellir uchod?

### Plant a/neu oedolion?

Gallai dyletswydd orfodol i adrodd gael ei chymhwyso i rai dan 16 oed yn unig, y rhai 16 i 18 oed, dan 18 oed ac, ym mhob achos, i oedolion bregus hefyd, neu i'r holl ddiodefwyr neu unigolion wrth risg.

Byddai cymhwyso'r ddyletswydd waeth beth yw oed yr unigolyn dan sylw yn sicrhau bod yr heddlu ac awdurdodau diogelu yn ymwybodol o'r holl ddiodefwyr posibl sydd wedi dod i gysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus ac sydd wedi'u hadnabod fel rhywun sydd wedi bod neu sydd 'wrth risg' o briodas dan orfod. Er enghraifft, gallai adrodd am riant a oedd wedi'i orfodi i briodas gefnogi asesiad risg mwy cadarn yn cael ei gynnal o'u plant. Serch hynny, gallai gofyniad mor eang beryglu gosod baich anghymesur ar weithwyr proffesiynol, heb unrhyw fuddion diogelu clir. Yn ychwanegol, byddai dyletswydd sydd hefyd yn gymwys i oedolion yn ymadael o'r gofynion cyfrinachedd cyfredol ac fe allai fod yn wrthanogaeth i ddiodefwyr geisio cyngor a chymorth proffesiynol.

Ymdriniaeth amgen fyddai cymhwyso'r ddyletswydd i unrhyw un o'r rhai dan 16 oed yn unig/16 i 18 oed/dan 18 oed ac i oedolion bregus. Gallai anabledd neu salwch dysgu neu gorfforol ychwanegu at fregusrwydd unigolyn ac fe allai ei gwneud hi'n anos iddynt adrodd am y cam-drin neu adael sefyllfa gamdriniol. Serch hynny, gallai heriau tebyg yng nghyswllt cyfrinachedd a diodefwyr yn ceisio cefnogaeth fod yn gymwys i oedolion bregus o hyd.

Byddai cymhwyso'r ddyletswydd i'r rhai dan 18 oed yn unig yn gyson â'r cyfrifoldebau statudol cyfredol sydd gan weithwyr proffesiynol i adrodd am gam-drin plant, gan gynnwys dyletswydd orfodol i adrodd am anffurfio organau cenhedlu benywod. Serch hynny, gallai'r rhai dan 18 oed barhau yn gyndyn i ddatgelu eu bod wedi'u gorfodi i briodas dan orfod, yn enwedig os oedd y ddyletswydd yn gofyn i'r datgeliad gael ei gyfeirio yn awtomatig at yr heddlu – yr hynaf yw'r unigolyn, y mwyaf tebygol y gallai hyn fod. Gallai cyfyngu ar y ddyletswydd i'r rhai dan 16 oed helpu i liniaru ymhellach ar y risg hon. Pe bai dyletswydd yn cael ei chyfyngu i'r rhai dan 18 oed neu dan 16 oed, byddai gofyn i'r gweithwyr proffesiynol adrodd achosion o briodasau dan orfod mewn oedolion yn briodol o hyd, yn enwedig os ydynt yn ystyried bod trosedd wedi'i chyflawni, fel yr amlinellir yn yr arweiniad amlasiantaeth ar briodas dan orfod.

**Cwestiwn 3:** Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, ydych chi'n meddwl y dylid ei chymhwyso i bob achos yn cynnwys:

- y rhai dan 16 oed (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- y rhai 16 a 17 oed (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- y rhai dan 18 oed (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- oedolion bregus (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- oedolion eraill (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)

## 2.2. Pa weithwyr proffesiynol ddylai fod yn amodol ar ddyletswydd, ac at bwy y dylent gael eu cyfeirio?

Gallai ystod o unigolion ddod yn ymwybodol o achosion priodas dan orfod, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, a'r rheini sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol a chymunedol.

Y gweithwyr proffesiynol sy'n fwyaf tebygol o ddod ar draws achosion o briodas dan orfod yw athrawon a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Gan hynny un ymdriniaeth fyddai i unrhyw ddyletswydd gymhwyso i athrawon a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol rheoledig.

Ymdriniaeth amgen fyddai i ddyletswydd gymhwyso i'r unigolion hynny sy'n gweithio o fewn asiantaethau statudol fel y disgrifir uchod ar rheini sy'n gweithio mewn sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol – byddai hyn yn cynnig y cyfle mwyaf i gasglu cynifer o achosion â phosibl. Serch hynny, mae fframio dyletswydd mor eang â hyn hefyd yn peryglu ymgysylltiad y bobl â'r gwasanaethau hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r sector gwirfoddol a chymunedol. Fe allai fod yn fwy heriol hefyd sicrhau bod unigolion nad yw eu proffesiwn yn cael ei oruchwylio gan, er enghraifft, corff rheoleiddio, ddeall eu cyfrifoldebau o dan ddyletswydd.

**Cwestiwn 4: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, ydych chi'n meddwl y dylai gymhwyso i:**

- **athrawon (dylai/na ddylai/ddim yn gwybod)**
- **gweithwyr proffesiynol iechyd rheoledig (gan gynnwys meddygon, nyrsys ayyb) (dylai/na ddylai/ddim yn gwybod)**
- **gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol rheoledig**
- **gweithwyr sector gwirfoddol a chymunedol (dylai/na ddylai/ddim yn gwybod)**
- **arall (nodwch os gwelwch yn dda)**
- **ddim yn gwybod**

Mae'r Llywodraeth hefyd eisiau ystyried i bwy y dylid adrodd. Byddai'n rhaid i adroddiad a wneir o dan ddyletswydd orfodol i adrodd priodas dan orfod gael ei dilyn i fyny o safbwynt troseddol a diogelu, felly gellid ei wneud i'r heddlu, gofal cymdeithasol, neu'r ddau. I ba bynnag asiantaeth y byddai adroddiad yn cael ei wneud, byddai angen ymateb diogelu amlasiantaeth (yn unol â'r arweiniad ehangach megis Working Together to Safeguard Children<sup>8</sup> (yn Lloegr) a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl<sup>9</sup> (yng Nghymru). Byddai'r Llywodraeth hefyd yn ei gwneud hi'n glir i weithwyr proffesiynol na ddylent oedi wrth wneud atgyfeiriad ar yr un pryd i ofal cymdeithasol plant os oes angen, ac y dylai achosion

<sup>8</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children--2>

<sup>9</sup> <https://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy>

## Atal a mynd i'r afael â phriodas dan orfod: ymgynghoriad

nad ydynt yn rhan o'r ddyletswydd gael eu cyfeirio'n briodol yn unol â chyfrifoldebau diogelu ehangach.

**Cwestiwn 5: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, a gredwch chi y dylai adroddiadau gael eu gwneud i:**

- yr heddlu yn unig
- gofal cymdeithasol yn unig
- yr heddlu a gofal cymdeithasol ar y cyd
- arall (nodwch os gwelwch yn dda)
- ddim yn gwybod

## Cymru

Yng Nghymru, mae adran 130 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn i "bartneriaid perthnasol"<sup>10</sup> yr awdurdod lleol i hysbysu'r awdurdod lleol pan fydd ganddynt achos rhesymol i amau bod plentyn o fewn ardal yr awdurdod lleol yn blentyn wrth risg (h.y. yn profi neu wrth risg o gam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, ac ag anghenion ar gyfer gofal a chefnogaeth). Pe bai dyletswydd yn cael ei chyflwyno, byddai'r Llywodraeth yn sicrhau nad oedd gwrthdaro gyda'r trefniadau ehangach sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru.

## 2.3 Amseru atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau lluosog

Pe bai dyletswydd yn cael ei chyflwyno, byddai'n rhaid ystyried hefyd pryd i wneud atgyfeiriadau. Un opsiwn fyddai i adroddiadau o dan y ddyletswydd gael eu gwneud adeg y datgelu. Byddai hyn yn gyson â dyletswyddau cyfredol ar weithwyr proffesiynol i adrodd am gam-drin plant, gan gynnwys dyletswydd orfodol i adrodd am anffurfio organau cenhedlu benywod.

---

<sup>10</sup> Diffinia Adran 162(4) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bartneriaid perthnasol fel a ganlyn:

- “(a) y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn disgyn o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- (b) unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r awdurdod yn cytuno y byddai'n briodol cydweithredu ag ef o dan yr adran hon;
- (c) yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymgymryd â swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 y Ddeddf Rheoli Troseddwy 2007 mewn perthynas â Chymru;
- (d) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf sy'n ofynnol gan drefniadau o dan adran 3(2) y Ddeddf Rheoli Troseddwy 2007 i weithredu fel partner perthnasol yr awdurdod;
- (e) Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn disgyn o fewn ardal yr awdurdod;
- (f) ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- (g) Gweinidogion Cymru i'r graddau y maen nhw'n ymgymryd â swyddogaethau o dan Ran 2 y Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000;
- (h) unrhyw berson, neu bobl o ddisgrifiad o'r fath, y gallai'r rheoliadau nodi.”

Serch hynny, mae ymdriniaethau amgen ar gael y gellid eu hystyried (yn enwedig, er enghraifft, pe bai'r ddyletswydd yn cynnwys achosion a amheuir neu oedolion). Gallai ymdriniaethau gwahanol gynnwys, er enghraifft:

- dyletswydd i adrodd dim ond pan fydd yr unigolyn dan sylw wedi rhoi caniatâd; neu
- gofyniad i'r adroddiad gael ei wneud ar foment priodol o fewn cyfnod o amser penodol (er enghraifft o fewn un mis i'r datgeliad cychwynnol, er mwyn caniatáu i'r gweithiwr proffesiynol sicrhau yn ystod y cyfnod hwnnw bod unrhyw effaith negyddol posibl i'r unigolyn neu'r teulu yn cael ei liniaru).

**Cwestiwn 6: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno yna ydych chi'n meddwl y dylai adroddiadau gael eu gwneud:**

- **ar bwynt y datgeliad cychwynnol (h.y. ar unwaith/cyn gynted â phosibl)**
- **o fewn cyfnod amser penodol (e.e. un mis) (nodwch chi beth ydych chi'n meddwl fyddai'r cyfnod amser priodol)**
- **dim ond os/pan fydd yr unigolyn yn rhoi caniatâd**
- **arall (nodwch os gwelwch yn dda)**
- **ddim yn gwybod**

Yn ychwanegol, rhaid rhoi ystyriaeth i'r ffaith y gallai'r unigolyn fod mewn cysylltiad gyda sefydliadau lluosog dros gyfnod o amser a chan hynny efallai y bydd angen datgelu mwy nac unwaith. Gallai dyletswydd sy'n gofyn am adroddiadau drachefn gan wahanol sefydliadau fod â goblygiadau ar gyfer unigolyn a allai gael ei anghymell rhag defnyddio gwasanaethau ar ôl adroddiadau drachefn ac (os yw'r ddyletswydd wedi'i fframio'n eang) â'r potensial i fod yn ddiangen. I'r gwrthwyneb, mae'n bwysig adnabod y gallai amgylchiadau unigolyn newid, felly gallai dyletswydd sy'n cefnogi adroddiadau lluosog fod yn offeryn defnyddiol.

Byddai'n rhaid i unrhyw ddyletswydd fynd i'r afael hefyd â'r her o wybod pryd, ar draws sefydliadau lluosog, y mae unigolyn wedi'i adrodd. Ar gyfer dyletswydd fyddai'n gofyn am un adroddiad yn unig i weithio, byddai angen rhannu gwybodaeth yn ddigonol a chysylltiadau rhwng y gwahanol gyrff i sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol a allai dderbyn datgeliad gan y dioddefwr yn gwybod pa adroddiad sydd eisoes wedi'i wneud. I fynd i'r afael â'r her hon, ymdriniaeth amgen fyddai gofyn i adroddiad gael ei wneud unwaith o fewn pob proffesiwn (er enghraifft, gallai achos gael ei adrodd unwaith gan feddyg ac unwaith gan athro, i gyfyngu ar feichiau ac ar yr un pryd yn hyrwyddo ymdriniaeth amlasiantaeth). Byddai hyn yn golygu pe bai gweithiwr proffesiynol yn ymwybodol bod unigolyn arall o'i broffesiwn eisoes wedi adrodd achos yn unol â gofynion y ddyletswydd yna ni fyddai gofyn gwneud ail adroddiad.



**Cwestiwn 7: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, ydych chi'n meddwl y dylai ofyn i adroddiad gael ei wneud:**

- unwaith fesul proffesiwn
- unwaith fesul gweithiwr proffesiynol unigol
- arall (nodwch os gwelwch yn dda)
- ddim yn gwybod

## 2.4 Canlyniadau methu adrodd

Elfen hanfodol o unrhyw ddyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod fyddai'r canlyniadau a allai ddilyn pe bai unigolyn yn methu cydymffurfio â'r ddyletswydd.

Pe bai dyletswydd yn cael ei chyflwyno, byddai'n bwysig i unrhyw ganlyniadau posibl am fethu cydymffurfio daro'r cydbwysedd cywir rhwng bod yn gadarn a bod yn gymesur, ac iddi fod yn bosibl i amgylchiadau'r achos penodol gael eu hystyried hyd y gellir.

Un opsiwn fyddai i fethu cydymffurfio â'r ddyletswydd gael ei ystyried gan y rheoleiddiwr/cyflogwr proffesiynol perthnasol. Byddai'r ymdriniaeth hon yn sicrhau lle byddai unigolyn yn methu cydymffurfio byddai cwmpas i gamau'r rheoleiddiwr/cyflogwr ystyried amgylchiadau'r achos penodol. Er enghraifft, gallai camau amrywio o rybudd, i ail-hyfforddi neu oruchwyliaeth, i ddiswyddo neu wahardd, gan ddibynnu ar yr opsiynau sy'n agored i'r rheoleiddiwr/cyflogwr a difrifoldeb methiant yr unigolyn i gydymffurfio. Ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, gallai panel addasrwydd i ymarfer ystyried yr achos i bennu a yw wedi amharu ar addasrwydd y cofrestrydd i ymarfer. Os ystyriant fod addasrwydd y cofrestrydd i ymarfer wedi'i amharu arno mae'n bosibl y byddant yn cyhoeddi cosb, gan gynnwys dilead o'r gofrestr berthnasol.

Opsiwn amgen fyddai bod y methiant i gydymffurfio yn drosedd. Byddai hyn yn sicrhau bod unrhyw enghraifft o fethiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn cael ei thrin yn gadarn, serch hynny fe allai hefyd beryglu ymateb anghymesur lle, er enghraifft, mai'r camau mwyaf priodol fyddai ailhyfforddi.

**Cwestiwn 8: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, ydych chi'n meddwl y dylai methiant i gydymffurfio â hi:**

- gael ei hystyried gan y rheoleiddiwr proffesiynol perthnasol/cyflogwr
- yn drosedd
- arall (nodwch os gwelwch yn dda)
- ddim yn gwybod



## Effaith

Gwyddom y bydd gan y rheini a fydd angen cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd orfodol i adrodd ystod o gyfrifoldebau diogelu yn barod. Rydym eisiau sicrhau na fyddai unrhyw ofynion newydd yn gosod beichiau anghymesur arnynt. Gan hynny:

**Cwestiwn 9: Pa dystiolaeth neu wybodaeth sydd gennych chi ar y cynnydd disgwylidig yn yr adroddiadau i'r heddlu yn sgil cyflwyno adrodd gorfodol ar briodas dan orfod a sut ydych chi'n meddwl y byddent yn amrywio gyda'r gwahanol gynigion?**

**Cwestiwn 10: Pa dystiolaeth neu wybodaeth sydd gennych chi ar ba mor hir y byddai'n ofynnol i atgyfeirio achos o briodas dan orfod a amheuir wrth yr heddlu, faint o amser y byddai'r heddlu yn ei dreulio yn ymchwilio i achos o'r fath, ac unrhyw gostau eraill i asiantaethau statudol wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd?**

**Cwestiwn 11: A fyddai unrhyw oblygiadau eraill ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen o gyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod?**

- Byddai [amlinellwch]
- Na
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 12: A fyddai unrhyw oblygiadau cydraddoldeb i gyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ac, os felly, sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain?**

- Byddai [amlinellwch sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain]
- Na
- Ddim yn gwybod

## Cwestiynau ehangach

**Cwestiwn 13: A oes unrhyw fuddion i gyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod na thynnir sylw atynt yn yr ymgynghoriad hwn?**

- Oes [amlinellwch]
- Na

**Cwestiwn 14: A oes unrhyw risgiau i gyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod na thynnir sylw atynt yn yr ymgynghoriad hwn?**

- Oes [amlinellwch]
- Na

## Rhan B: Arweiniad ar Briodas dan Orfod

Er mwyn helpu i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a sefydliadau diogelu perthnasol yn deall, yn adnabod, ac yn ymateb yn briodol ac yn effeithiol i briodas dan orfod, mae'r Llywodraeth wedi sicrhau bod ystod o ddeunyddiau ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad penodol ar briodas dan orfod, a gyhoeddwyd yn 2014:

- *Hawl i Ddewis: Arweiniad statudol amlasiantaeth ar gyfer delio gyda phriodas dan orfod*<sup>11</sup> – mae'n gymwys i bob person neu gorff sy'n defnyddio swyddogaethau cyhoeddus mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion bregus. Paratoir yr arweiniad hwn a'i gyhoeddi yn unol â'r darpariaethau yn adran 63Q Deddf Cyfraith Teulu 1996. Mae Adran 63Q (2) Deddf 1996 yn gofyn i unrhyw un sy'n defnyddio swyddogaethau cyhoeddus y mae'r arweiniad yn cael ei roi iddo ystyried yr arweiniad wrth ymgymryd â'r swyddogaethau cyhoeddus hynny; a
- *Arweiniadau arfer amlasiantaeth: ymdrin ag achosion priodas dan orfod*<sup>12</sup> sy'n cynnig cyngor cam wrth gam i weithwyr rheng flaen.

Rydym eisiau edrych ar sut y gellid gwella'r arweiniad, ac yn benodol byddem yn croesawu barnau ar yr isod:

**Cwestiwn 15: A oes unrhyw ddiwygiadau sylweddol y gellid eu gwneud i'r arweiniad statudol a fyddai'n helpu i atal priodas dan orfod a diogelu a chefnogi dioddefwyr?**

**Cwestiwn 16: A oes unrhyw ddiwygiadau sylweddol y gellid eu gwneud i'r arweiniad arfer a fyddai'n helpu i atal priodas dan orfod ac yn diogelu ac yn cefnogi dioddefwyr?**

Fel yr amlinellir uchod, ar hyn o bryd mae dau brif ddarn o arweiniad Llywodraeth ar briodas dan orfod: cyngor cam wrth gam i weithwyr proffesiynol rheng flaen, ac arweiniad i'r holl unigolion a chyrrff sy'n defnyddio swyddogaethau cyhoeddus mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion bregus. Er mwyn helpu i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol ar briodas dan orfod ar gael yn rhwydd, un opsiwn ar gyfer yr arweiniad wedi'i ddiweddarau fyddai cynhyrchu un darn o arweiniad yn addas i'w ddefnyddio gan y ddwy gynulleidfa.

---

<sup>11</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/322310/HMG\\_Statutory\\_Guidance\\_publication\\_180614\\_Final.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/322310/HMG_Statutory_Guidance_publication_180614_Final.pdf)

<sup>12</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/322307/HMG\\_MULTI\\_AGENCY\\_PRACTICE\\_GUIDELINES\\_v1\\_180614\\_FINAL.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/322307/HMG_MULTI_AGENCY_PRACTICE_GUIDELINES_v1_180614_FINAL.pdf)

**Cwestiwn 17: A ydych chi'n meddwl y dylai'r arweiniad amlasiantaeth statudol a'r arweiniadau arfer gael eu cyfuno i ddarparu un ddogfen glir i weithwyr proffesiynol?**

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

Mae priodas dan orfod yn ffurf ar drais/cam-drin 'ar sail anrhydedd'<sup>13</sup>, a gwyddom y gallai dioddefwyr a'r rheini wrth risg o briodas dan orfod brofi neu fynd ymlaen i brofi ffurfiau ehangach o gam-drin megis cam-drin domestig neu drais rhywiol. O ystyried y croesi rhwng y materion hyn, fe allai fod yn fuddiol i'r arweiniad gynnwys mwy o wybodaeth ar drais/cam-drin 'ar sail anrhydedd' yn gyffredinol.

**Cwestiwn 18: Ydych chi'n meddwl y dylai'r arweiniad gael ei ehangu i gynnwys gwybodaeth ar drais/cam-drin 'ar sail anrhydedd'?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 18a: Os ydych chi, a oes gwybodaeth a chynghor penodol ar drais/cam-drin 'ar sail anrhydedd' yr ydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys?**

**Cwestiwn 19: A oes unrhyw ffactorau eraill y credwch chi y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r arweiniad ar briodas dan orfod?**

---

<sup>13</sup> Mae trais/cam-drin 'ar sail anrhydedd' yn derm ymbarél sy'n cwmpasu troseddau neu weithredoedd yn enw amddiffyn neu ddiogelu 'anrhydedd' y teulu neu'r gymuned.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn a amlinellir yn y papur ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 1: A gredwch chi y byddai cyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn gwella'r ymateb diogelu i'r drosedd hon?**

- Byddai
- Na fyddai
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 2(a): Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, ydych chi'n meddwl y dylai gymhwyso i:**

- Achosion 'hysbys' (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- Achosion 'a amheuir' (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- Achosion 'wrth risg' (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)

**Cwestiwn 2(b): Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno ar gyfer achosion 'a amheuir' a/neu 'wrth risg', pa amddiffyniadau y credwch chi y gellid eu sefydlu er mwyn helpu i liniaru ar y risgiau a amlinellir uchod?**

**Cwestiwn 3: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, a gredwch chi y dylai gymhwyso i achosion sy'n cynnwys:**

- y rhai dan 16 oed (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- 16 a 17 oed (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- y rhai dan 18 oed (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- oedolion bregus (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- oedolion eraill (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)

**Cwestiwn 4: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, a gredwch chi y dylai gymhwyso i:**

- athrawon (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- gweithwyr proffesiynol iechedd rheoledig (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol rheoledig (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- gweithwyr sector gwirfoddol a chymunedol (ydw/nac ydw/ddim yn gwybod)
- arall (nodwch os gwelwch yn dda)
- ddim yn gwybod

**Cwestiwn 5: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, a gredwch chi y dylai ofyn i adroddiadau gael eu gwneud i'r:**

- heddlu yn unig
- gofal cymdeithasol yn unig
- yr heddlu a gofal cymdeithasol ar y cyd
- arall (nodwch os gwelwch yn dda)
- ddim yn gwybod

**Cwestiwn 6: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno yna a gredwch chi y dylai adroddiadau gael eu gwneud:**

- adeg y datgelu cychwynnol (h.y. ar unwaith/cyn gynted â phosibl)
- o fewn cyfnod o amser penodol (e.e. un mis) (nodwch beth ydych chi'n meddwl fyddai'n gyfnod amser priodol)
- dim ond os/pan fydd unigolyn yn rhoi caniatâd
- arall (nodwch os gwelwch yn dda)
- ddim yn gwybod

**Cwestiwn 7: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod yn cael ei chyflwyno, a gredwch chi y dylai ofyn i adroddiad gael ei wneud:**

- unwaith fesul proffesiwn
- unwaith fesul gweithiwr proffesiynol unigol
- arall (nodwch os gwelwch yn dda)
- ddim yn gwybod

**Cwestiwn 8: Pe bai dyletswydd orfodol i adrodd yn cael ei gyflwyno ar gyfer priodas dan orfod, a ydych chi'n meddwl y dylai methiant i gydymffurfio â hi gael ei ystyried:**

- gan y rheoleiddiwr proffesiynol perthnasol/cyflogwr
- yn drosedd
- arall (nodwch os gwelwch yn dda)
- ddim yn gwybod

**Cwestiwn 9: Pa dystiolaeth neu wybodaeth sydd gennych chi ar y cynnydd disgwyledig mewn adroddiadau i'r heddlu yn sgil cyflwyno adrodd gorfodol ar briodas dan orfod a sut y credwch chi y byddent yn amrywio gyda'r gwahanol gynigion?**

**Cwestiwn 10: Pa dystiolaeth neu wybodaeth sydd gennych chi ar ba mor hir fyddai'n ofynnol i gyfeirio achos o briodas dan orfod a amheuir wrth yr heddlu, faint o amser y byddai'r heddlu yn ei dreulio yn ymchwilio i achos o'r fath, ac unrhyw gostau eraill i asiantaethau statudol yn sgil cydymffurfio â'r ddyletswydd?**

**Cwestiwn 11: A fyddai unrhyw oblygiadau eraill ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen o gyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod?**

- Byddai [amlinellwch]
- Na
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 12: A fyddai goblygiadau cydraddoldeb yn sgil cyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ac, os felly, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?**

- Byddai [amlinellwch sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain]
- Na
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 13: A oes unrhyw fuddion yn sgil cyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod na thynnwyd sylw atynt yn yr ymgynghoriad hwn?**

- Oes [amlinellwch]
- Na

**Cwestiwn 14: A oes unrhyw risgiau yn sgil cyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer priodas dan orfod na thynnwyd sylw atynt yn yr ymgynghoriad hwn?**

- Oes [amlinellwch]
- Na

**Cwestiwn 15: A oes unrhyw ddiwygiadau sylweddol y gellid eu gwneud i'r arweiniad statudol a fyddai'n helpu i atal priodas dan orfod a diogelu a chefnogi dioddefwyr?**

**Cwestiwn 16: A oes unrhyw ddiwygiadau sylweddol y gellid eu gwneud i'r arweiniad arfer a fyddai'n helpu i atal priodas dan orfod a diogelu a chefnogi dioddefwyr?**

**Cwestiwn 17: A gredwch chi y dylai'r arweiniad amlasiantaeth statudol a'r arweiniad arfer gael eu cyfuno i gynnig un ddogfen glir i weithwyr proffesiynol?**

- Dylai
- Na
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 18: A gredwch chi y dylai'r arweiniad gael ei ehangu i gynnwys gwybodaeth ar drais/cam-drin 'ar sail anrhydedd'?**

- Dylai
- Na
- Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 18a: Os ydych chi, a oes gwybodaeth a chyngor penodol ar drais/cam-drin 'ar sail anrhydedd' y credwch chi y dylid eu cynnwys?**

**Cwestiwn 19: A oes unrhyw ffactorau eraill y credwch chi y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r arweiniad ar briodas dan orfod?**

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun

<b>Teitl swydd</b> neu yn rhinwedd beth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (er enghraifft, aelod o'r cyhoedd)	
Dyddiad	
Enw cwmni/sefydliad (os yn berthnasol)	
Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth	



**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, dywedwch enw'r grŵp a rhoi crynodeb o'r bobl neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---

---

---

---

# Manylion cyswllt a sut i ymateb

Er mwyn ein helpu ni i ddadansoddi'r ymatebion, cyflwynwch eich ymatebion gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein a ganlyn:

<https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/ForMar18/>

Anfonwch eich ymateb erbyn 23:00 ar 23 Ionawr 2019.

Os, am resymau eithriadol, nad ydych chi'n gallu defnyddio'r system ar-lein, er enghraifft oherwydd eich bod chi'n defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol nad yw'n gydnaws â'r system, gallwch lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen a'i hanfon ar e-bost at:

Interpersonal Violence Team, Public Protection Unit

5<sup>th</sup> Floor, Fry Building

Home Office

2 Marsham Street

London, SW1P 4DF

e-bost: [forcedmarriageconsultation@homeoffice.gov.uk](mailto:forcedmarriageconsultation@homeoffice.gov.uk)

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Swyddfa Gartref yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae copïau papur pellach o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae ar gael ar-lein hefyd yn

[https://www.gov.uk/government/publications?departments%5B%5D=home-office&publication\\_filter\\_option=consultations](https://www.gov.uk/government/publications?departments%5B%5D=home-office&publication_filter_option=consultations)

Gellir gofyn am fersiynau ar ffurfiau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn gan

[forcedmarriageconsultation@homeoffice.gov.uk](mailto:forcedmarriageconsultation@homeoffice.gov.uk)

## Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn Gwanwyn 2019. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn

[https://www.gov.uk/government/publications?departments%5B%5D=home-office&publication\\_filter\\_option=consultations](https://www.gov.uk/government/publications?departments%5B%5D=home-office&publication_filter_option=consultations)

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Gallai gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu'i datgeli yn unol â'r trefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi eisiau i'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus cydymffurfio â hwy ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, gyda rhwymedigaethau hyder. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod y wybodaeth yr ydych wedi ei darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo ei hun, yn rhwymol ar y Swyddfa Gartref.

Bydd y Swyddfa Gartref yn prosesu'ch data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion yr ymgynghoriad

Nodir yr egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaeth yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



© Hawlfraint y Goron 2018

ISBN: 978-1-78655-732-2

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [https://www.gov.uk/government/publications?departments%5B%5D=home-office&publication\\_filter\\_option=consultations](https://www.gov.uk/government/publications?departments%5B%5D=home-office&publication_filter_option=consultations)

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn [public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk).